

Pennaeth y Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel

Dyddiad Cau: Dydd Sul 26 Medi 2021

Dyddiad y Cyfweiliad: dyddiad i'w gadarnhau

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn arwain Tîm y Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel, sy'n cynnwys Rheolwr Datblygu Rhwydwaith a Busnes, Rheolwr Cyfathrebu a Digwyddiadau a Swyddog Cefnogi Busnes. Mae'r swydd yn cael ei chynnal a'i rheoli gan CLILC ar ran partneriaid arweiniol llywodraeth leol a phlisma Cymru, ac mewn cydweithrediad â phartneriaid allweddol eraill i gyflawni cymunedau mwy diogel.

Cyflwg: Graddfa 7 - SCP 50 – 52 (£51,603 - £59,358)

Cyfnod: Llawn amser, cyfnod penodol tan 31 Mawrth 2023

Yn atebol i: Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai

Lleoliad: Un Parêd y Gamlas, Dumballs Road, Caerdydd (mae hon yn swydd dros Gymru gyfan, felly bydd disgwyl i ddeiliad y swydd deithio'n rheolaidd i Gaerdydd ac ar draws Cymru, er y bydd hyblygrwydd o ran lleoliad y swydd yn ddibynnol ar drafodaeth)

Swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol Ydi

Cymraeg yn hanfodol Nac ydi

Hanes

Cafodd Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, pob un i gael ei arwain gan yr Awdurdod Lleol a'r Heddlu Lleol ac yn cynnwys asiantaethau partner a'r gymuned leol, eu sefydlu fel gofyniad statudol o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mae ganddynt hanes cadarnhaol o ddatrys problemau ac ymyrryd yn gynnar i atal niwed a lleihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Yn ystod y ddegawd ddiwethaf, pan wnaed toriadau eithafol i adnoddau Cyngorau a'r Heddlu, gwelwyd llawer o waith y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn gwanhau, gan arwain at fenter Weinidogol gan Lywodraeth Cymru i adfywio Diogelwch Cymunedol yng Nghymru. Yn dilyn hyn, bu i CLILC a Phlisma Cymru – oedd yn cynrychioli'r partneriaid lleol arweiniol – sefydlu Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Cymru, gan wahodd partneriaid perthnasol eraill i ymuno â'r Bwrdd. Y prif ddatblygiad oedd y gwaith i ddatblygu Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru.

Cafwyd cymorth ariannol i sefydlu'r Rhwydwaith gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â'r ddau bartner arweiniol, a dangoswyd brwdfrydedd gan y partneriaid allweddol eraill a gan ymarferwyr diogelwch cymunedol ymysg Llywodraeth Leol a Phlisma.

Gwnaed cynnydd nodedig wrth ddatblygu'r Rhwydwaith ac wrth ddarparu arweinyddiaeth strategol ar draws Cymru, ac rydym bellach yn chwilio am arweinydd tîm ysbrydoledig i gynnal a pharhau'r fenter arloesol hon.

Ynglŷn â'r Swydd

Bydd deiliad y swydd yn atebol i'r Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel, ac yn cydweithio'n agos ag ef i:

- arwain datblygiad, sefydliad a chydlyniad Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru;
- darparu rheolaeth atebol i dîm staff y Rhwydwaith, ac yn benodol i'r Rheolwr Datblygu Rhwydwaith a Busnes a Rheolwr Cyfathrebu a Digwyddiadau'r Rhwydwaith;
- cefnogi a chydlynu'r gwaith o gyflawni a chwblhau rhaglen waith y Bwrdd yn llwyddiannus, fel y cytunwyd;
- hyrwyddo, cefnogi a hwyluso'r gwaith o adfywio arweinyddiaeth leol, ranbarthol a chenedlaethol ar gyfer partneriaeth cymunedau mwy diogel ar draws Cymru;
- bod yn gyfrifol am roi'r newyddion diweddaraf i fudd-ddeiliaid ynglŷn â datblygiadau polisi ac ymarfer mewn perthynas â diogelwch cymunedol a meysydd cysylltiedig;
- darparu cyfleoedd i rannu arferion gorau sy'n dod i'r amlwg ac sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth mewn perthynas â chydlynu a chyflawni blaenoriaethau diogelwch cymunedol.

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau:

- Darparu arweinyddiaeth uniongyrchol ar ran llywodraeth leol a phlisma wrth gyflawni blaenoriaethau Cymunedau Mwy Diogel, gan sicrhau bod pob partner yn deall ac yn cytuno ar bwysigrwydd diogelwch cymunedol.
- Hyrwyddo a galluogi arweinyddiaeth strategol o fewn agweddau eraill ar weithio mewn partneriaeth, gan gynnwys gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, cydweithio ar faterion camddefnyddio sylweddau, atal trais, diogelu pobl ddiamddiffyn ac iechyd meddwl.
- Arwain datblygiad a chyflawniad rhaglen waith sy'n cefnogi gwaith y Bwrdd a chamau cydweithredol ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol fel y bo'n briodol, gan nodi canlyniadau ac elfennau allweddol y gellir eu cyflawni. Sicrhau bod y prif bartneriaid yn ymwybodol o unrhyw newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth neu bolisi yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig sy'n berthnasol i'r gwaith ar Ddiogelwch Cymunedol.
- Asesu ac adrodd ar oblygiadau ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad gan y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, gan nodi problemau ac/neu oblygiadau posibl sy'n ymwneud â chyflawni diogelwch cymunedol, a chefnogi'r gwaith o weithredu'r argymhellion fel y bo'n briodol neu'n berthnasol i lywodraeth leol a/neu blisma.
- Sefydlu a chynnal cysylltiadau gwaith effeithiol gyda budd-ddeiliaid allweddol yng nghyd-destun y rhaglen diogelwch cymunedol (gan gynnwys cyrff datganoledig a heb eu datganoli), yn enwedig felly'r rheiny sy'n gweithio yng Nghymru ac yn y system cyfiawnder troseddol, a'r rheiny sy'n gwneud gwaith cysylltiedig o ran ymyrryd yn gynnar, fel Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Sefydlu a chynnal cyswllt parhaus gyda swyddogion diogelwch cymunedol arweiniol mewn sefydliadau partner allweddol, gan gynnwys hwyluso'r gwaith o rannu arferion gorau a sicrhau bod ymarferwyr diogelwch cymunedol yn cael eu cefnogi i ennill y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i roi'r weledigaeth newydd ar waith.

- Arwain y gwaith o ddatblygu canllawiau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth diogelwch cymunedol, sy'n pennu'r modd y gall partneriaid ymgorffori egwyddorion Datblygu Cynaliadwy a Nodweddion Partneriaeth Effeithiol.
- Gweithio'n uniongyrchol gyda Llywodraeth Cymru, y Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Chomisïynwyr Heddlu a Throsedd i egluro'r cyllid sydd ar gael a phwrpas y cyllid hwnnw ar gyfer gwaith partneriaeth, rhaglenni a mentrau diogelwch cymunedol ar draws Cymru.
- Adnabod a phennu sut i rannu adnoddau'n well i gynyddu'r gallu i symud ymlaen â gwaith diogelwch cymunedol strategol a gweithredol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.
- Datblygu trefniadau i alluogi datblygiad arferion gorau mewn perthynas â rhannu gwybodaeth a data, a chefnogi gwaith gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol i gynyddu/gwneud y defnydd gorau o'r gallu dadansoddol presennol ar draws plismona, llywodraeth leol a phartneriaid eraill.

Wrth arwain datblygiad, sefydliad a chydlyniad pellach Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru:

- Parhau i ddatblygu a gweithredu strategaethau cynnwys, ymgysylltu a chyfathrebu â budd-ddeiliaid, cynlluniau busnes, cynlluniau gwaith a strategaethau eraill, gan gynnwys nodi a gwneud y gorau o gyfleoedd i gynhyrchu incwm a datblygu'r Rhwydwaith yn y dyfodol;
- Arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu model aelodaeth a strwythur ffioedd y Rhwydwaith a chreu, gweithredu a chydlynu rhaglenni ategol o Aelodaeth Gyswllt (arbenigwyr pwnc), cefnogaeth gan gymheiriaid, gwirfoddolwyr diogelwch cymunedol ac archwilio'r potensial i sefydlu cynllun prentisiaethau rhwydwaith diogelwch cymunedol;
- Cynnal y gwaith o greu, gweithredu a chydlynu gwasanaethau cefnogi a chyswllt aelodau, gan gynnwys sefydlu a rheoli cronfa ddata budd-ddeiliad ac aelodau yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR);
- Arwain y gwaith o sefydlu a pharhau'r is-rwydweithiau cysylltiedig, megis Rhwydwaith Gwella Data a Dadansoddiad Amlasiantaeth Cymru, Cyfiawnder Cymunedol Cymru, ynghyd â rhwydweithiau rhanbarthol, thematig a chefnogaeth gan gymheiriaid;
- Parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ac eraill ar sefydlu Canolbwynt Cydlynu ar gyfer Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl gan y Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel, a gweithgareddau cysylltiedig;
- Arwain ar ddatblygu cynhyrchion Rhwydwaith, fel briffiau polisi ac arferion, pecynnau adnoddau, canllawiau, astudiaethau achos arfer effeithiol, rhaglenni dysgu a datblygu a digwyddiadau fel cynadleddau a seminarau/gweminarau;
- Sicrhau bod gweithgarwch y Rhwydwaith yn parhau i gael ei fonitro a'i werthuso drwy sicrhau bod taenlenni, cronfeydd data, arolygon, briffiau, adroddiadau a chynnwys gwefannau a chyfryngau cymdeithasol yn cael eu creu a'u cynnal;
- Sicrhau rheolaeth o systemau/cofnodion ariannol y Rhwydwaith (drwy ddefnyddio Sage Accounts a Microsoft Excel) mewn cysylltiad â Swyddog Cyllid y sawl sy'n cynnal y Rhwydwaith, a sicrhau y cydlynir y cyfrifon a'r ymatebion i ymholiadau ariannol gan aelodau, aelodau cyswllt a budd-ddeiliaid eraill;
- Sicrhau datblygiad a gweithrediad polisiâu ac arferion sefydliadol a sicrhau bod cydymffurfriad yn cael ei fonitro;
- Sicrhau twf o ran proffil ac ymgysylltiad y Rhwydwaith â budd-ddeiliaid drwy'r cyfryngau cymdeithasol, technolegau rhyngweithiol a dulliau eraill;
- Sicrhau bod digwyddiadau fel cynadleddau, seminarau, gweminarau, rhaglenni hyfforddi ac ymgynghoriadau yn cael eu trefnu;

- Darparu rheolaeth atebol i dîm y Rhwydwaith, ac yn benodol i'r Rheolwr Datblygu Rhwydwaith a Busnes a Rheolwr Cyfathrebu a Digwyddiadau'r Rhwydwaith;
 - Gweithio'n hyblyg ar draws pob un o swyddi tîm y rhwydwaith ac ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesur â graddfa a chyfrifoldebau'r swydd, yn ôl y gofyn.
-

Manylion am yr Unigolyn

Hanfodol

Sgiliau a Gallu:

- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- Sgiliau trefnu a chynllunio rhagorol, yn cynnwys rheoli staff a budd-ddeiliad, a chydlynu prosiectau a rhaglenni.
- Sgiliau rheoli arian a busnes, cynhyrchu incwm neu godi arian.
- Gallu trafod a dylanwadu ar newid ar lefel uwch ar draws sefydliadau a phartneriaethau, a gallu cyfathrebu'n effeithiol gydag ystod eang o fudd-deiliaid, a hynny'n ystyriol, yn bwyllog, yn gyfrinachol a gydag ymwybyddiaeth/sensitifrwydd gwleidyddol.
- Gallu trafod a threfnu cytundebau gyda budd-ddeiliaid niferus ac amrywiol, a hynny ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.
- Sgiliau wrth ddelio â'r cyfryngau, cysylltiadau cyhoeddus a chyfathrebu/cyflwyno.

Gwybodaeth a Phrofiad:

- Gwybodaeth fanwl am y rhaglen diogelwch cymunedol yng Nghymru a'r cyd-destun deddfwriaethol llawn sy'n rheoli diogelwch cymunedol, gostwng troseddau a lleihau aildroseddau – gan gynnwys deddfwriaeth berthnasol i Gymru, fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Profiad amlwg o weithio mewn amgylchedd sy'n gysylltiedig â pholisi cyhoeddus ar lefel uwch, gan gynnwys ymchwilio, datblygu, dadansoddi a chyflwyno cynigion a dadansoddiadau polisi, a dehongli eu heffaith, eu perthnasedd a'u goblygiadau i wasanaethau cyhoeddus.
- Gwybodaeth am faterion cyfoes a'r heriau sy'n wynebu llywodraeth leol, plismona a'r system cyfiawnder troseddol ehangach a'r sector cyhoeddus, yn enwedig mewn perthynas â hyrwyddo a sefydlu diogelwch cymunedol.
- Gwybodaeth am, a dealltwriaeth o ddeddfwriaeth ac arferion gorau cydraddoldeb a hawliau dynol, eu gofynion ar gyrff cyhoeddus ac ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb perthnasol yn y system cyfiawnder troseddol.
- Profiad o reoli staff, cyllidebau ac adnoddau, gan gynnwys gweithredu a goruchwylio systemau a phrosesau rheoli perfformiad.
- Profiad o weithio gydag elusennau, sefydliadau nid-er-elw a grwpiau cymunedol, gan gynnwys defnyddio modelau ymgysylltu a chynnwys y gymuned yn effeithiol.

Agwedd a Chymhelliant:

- Wedi ymroi i weithio mewn partneriaeth a gyda budd-ddeiliaid allanol i wella gwasanaethau cyhoeddus.
- Wedi ymroi i ddarparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid.
- Wedi ymroi i arferion cydraddoldeb.
- Gallu gweithio'n hyblyg ac addasu i ffyrdd newydd o weithio.

Arall:

- Yn barod i deithio ar draws Cymru os bydd angen.
- Yn barod i weithio ar benwythnosau a gyda'r nos os bydd angen.

Dymunol

Sgiliau a Gallu:

- Sgiliau Cymraeg llafar ac ysgrifenedig.
- Trwydded yrru lawn y DU.

Gwybodaeth a Phrofiad:

- Cymhwyster sy'n berthnasol i Ddiogelwch Cymunedol, Atal Niwed neu Ddatblygu Cymunedol.
- Cymhwyster hyfforddi neu brofiad o ddylunio a chyflwyno digwyddiadau a gweithgareddau hyfforddi.

Gwybodaeth am Fwrdd Cymunedau Mwy Diogel Cymru

Bydd y swydd hon yn bennaf yn cefnogi ac yn datblygu gwaith y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel, gan gefnogi a galluogi'r Bwrdd i ddarparu arweinyddiaeth, trosolwg a chyfeiriad i waith diogelwch cymunedol ledled Cymru. Sefydlwyd y Bwrdd gan lywodraeth leol a phlisma yng Nghymru, gan gynnwys partneriaid eraill, gyda'r nod o ddarparu arweinyddiaeth effeithiol ar y cyd i gefnogi gwaith partneriaeth yn lleol, er mwyn sicrhau cymunedau diogel, cryf a mwy hyderus.

Bydd y Bwrdd yn darparu arweinyddiaeth genedlaethol ar y cyd er mwyn mynd i'r afael â materion diogelwch cymunedol, gan gynnwys nodi blaenoriaethau gweithredu newydd a rennir a sicrhau bod seilwaith cefnogol ar gyfer polisïau, arferion a phartneriaeth ar waith i alluogi cyflwyniad llwyddiannus, yn lleol ac yn rhanbarthol, fel sydd fwyaf priodol. Bydd hefyd yn hyrwyddo ymagwedd gydlynol, yn genedlaethol ac yn lleol, tuag at fentrau a phrosiectau cysylltiedig fel yr Uned Atal Trais, Hwb ACEs ac Ymyrryd yn Gynnar gyda'n Gilydd, er mwyn tynnu sylw at bwysigrwydd dulliau atal ac ymyrryd yn gynnar a sicrhau eu bod yn cael eu sefydlu yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol yng Nghymru.

Ynglŷn â CLILC

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cynrychioli lles llywodraeth leol ac yn hybu democratiaeth leol yng Nghymru.

Ein nod yw **hyrwyddo, diogelu, cefnogi a datblygu llywodraeth leol ddemocrataidd** a buddiannau awdurdodau lleol yng Nghymru.

Rydym yn sefydliad trawsbleidiol dan arweiniad gwleidyddol sy'n ceisio rhoi llais cryf i lywodraeth leol ar lefel genedlaethol. Mae CLILC yn sefydliad aelodaeth sy'n cynrychioli'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, mae'r 3 awdurdod tân ac achub a'r 3 awdurdod parc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

Rydym yn credu fod gwasanaethau'n cael eu darparu orau o fewn fframwaith democrataidd o atebolrwydd lleol ac y dylai pobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus gael cymaint o lais â phosibl yn y ffordd maent yn cael eu trefnu, rheoli a'u hariannu. Ystyrir mai Llywodraeth Leol yw'r haen o lywodraeth agosaf at ddefnyddwyr gwasanaethau ac sy'n gallu ymateb orau i'w hanghenion. Rydym yn cefnogi rôl Llywodraeth Cymru o ran gosod y strategaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn genedlaethol ond credwn mai mater i lywodraeth leol yw dehongli strategaeth i ddarparu gwasanaethau yn seiliedig ar amgylchiadau lleol a blaenoriaethau lleol.

Mae llawer o'n gwaith yn canolbwyntio ar Senedd, Llywodraeth Cymru a budd-ddeiliaid a phartneriaid cenedlaethol eraill. Rydym hefyd yn cysylltu â Swyddfa Cymru a Llywodraeth y DU ac yn gweithio'n agos gyda CLIL yn Llundain i geisio dylanwadu ar bolisiâu a deddfwriaeth heb eu datganoli ac, yn benodol, adfer ar ôl COVID 19 ac ymateb i ddatblygiadau sy'n ymwneud â Brexit.

Mae ein gwaith yn cynnwys ymgysylltu â Gweinidogion, Aelodau'r Senedd, a sefydliadau cenedlaethol a llywodraethol eraill. Rydym yn hyrwyddo rôl bwysig llywodraeth leol i Aelodau'r Senedd ac yn ceisio gwella a diogelu enw da cynghorau a sicrhau newid cadarnhaol i ddeddfwriaeth. Felly, mae gwaith lloïo CLILC yn helaeth.

Ein Gwerthoedd

Wrth weithio tuag at ei brif ddibenion, rydym yn ceisio bod yn:

- **Uchelgeisiol** yn ein disgwyliadau ac yn ein gweledigaeth ar gyfer democratiaeth leol a gwasanaethau lleol;
- **Atebol** i'n haelodau ac awdurdodau sy'n aelodau;
- **Rhagweithiol** wrth amddiffyn a hyrwyddo democratiaeth leol, wrth i ni ddatblygu polisi ac ymgysylltu ag aelodau;
- **Derbyngar** drwy wrando ar ac ystyried ystod o farn ein haelodau, partneriaid a'n budd-ddeiliaid;
- **Ymatebol** drwy ein gwasanaethau a chymorth i'n haelodau ac awdurdodau sy'n aelodau;
- **Cydweithredol** yn ein dull tuag at lywodraethu a gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru a budd-ddeiliaid eraill.

Rydym hefyd yn gweithio tuag at gynnal a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol; gan gynnwys hyrwyddo amrywiaeth mewn democratiaeth a chynorthwyo cynghorwyr yn eu swyddi fel cynrychiolwyr lleol wedi eu hethol yn ddemocrataidd.

Rydym wedi ymrwymo i gydraddoldeb a thegwch ac er nad ydym yn gorff statudol, rydym yn gweithredu yn ôl ysbryd deddfwriaeth fel Deddf Cydraddoldeb, Deddf Rhyddid Gwybodaeth a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Ein Nodau a'n Blaenoriaethau

Sail ein blaenoriaethau yw ein hamcanion craidd o sicrhau:

- **Diwygio, gwelliant parhaus ac ymrwymiad i bartneriaeth** – rydym yn credu mewn diwygio llywodraeth leol ac yn ceisio gwelliant parhaus fel proses ar gyfer darparu gwell canlyniadau a gwasanaethau ar gyfer pobl Cymru, a sicrhau fod adnoddau'n cael eu defnyddio mor effeithiol ac effeithlon â phosibl.
- **Cyllido teg a hyblyg** – mae angen rhagor o ymreolaeth gyllidol a hyblygrwydd ar gynghorau i ymateb i anghenion a blaenoriaethau lleol. Dylid trosglwyddo grantiau i'r setliad, a dylai Llywodraeth Cymru, ar ôl cyfnod y cytunir arno, gostio a chyllido unrhyw gynlluniau a/neu ddeddfwriaeth cenedlaethol newydd yn llawn a dylent ymrwymo i ddatganiadau ariannol sawl blwyddyn fel y gall cynghorau gynllunio yn fwy effeithiol;
- **Ymrwymiad i'r egwyddor o Sybsidiaredd** - dylai Llywodraeth Cymru a'r Senedd ymrwymo i Siarter Ewrop dros Hunanlywodraeth Lleol a'r egwyddor o sybsidiaredd, lle mae'r rhagdybiaeth yw bod grym yn cael ei drosglwyddo i'r lefel llywodraeth agosaf at y bobl. Mae gan Lywodraeth Cymru swyddogaeth strategol genedlaethol glir, ond mae cynghorau'n dymuno gweld momentwm y tu ôl i ddatganoli grymoedd y tu hwnt i Fae Caerdydd i lywodraeth leol ac i gymunedau lleol.

Byddwn hefyd yn:

- **Hyrwyddo swyddogaeth ac amlygrwydd cynghorwyr ac arweinwyr cynghorau**, gan bwysleisio eu mandad democrataidd cyfartal gyda gwleidyddion cenedlaethol.
 - **Sicrhau cymaint â phosibl o ddisgresiwn lleol mewn deddfwriaeth neu ganllawiau statudol** lle mae gan gynghorau a rhanbarthau hyblygrwydd wrth bennu blaenoriaethau, gwasanaethau a threfniadau llywodraethu rhanbarthol.
 - **Hyrwyddo gwelliant wedi ei arwain gan y sector**, gyda phwyslais ar ddigidol ac arloesi, cefnogi awdurdodau i rannu arferion gorau, datblygu sgiliau'r gweithlu a datblygu rhaglen adolygiad gan gymheiriaid corfforaethol.
 - **Annog democratiaeth leol fywiog; hyrwyddo rhagor o amrywiaeth** a gwell ymgysylltu democrataidd a chefnogi datblygiad a hyfforddiant cynghorwyr.
 - **Cefnogi awdurdodau i reoli ei weithlu'n effeithiol** drwy ein swydd fel Sefydliad Cyflogwyr.
-

Buddiannau: Gweithio i CLILC

Mae CLILC yn le cyffrous i weithio ynddo.

Mae CLILC yn y broses o symud i swyddfeydd newydd, modern, cynllun agored ym Mharêd Un Gamlas, Caerdydd (ym mis Hydref 2021). Mae hyn yn rhan o ddatblygiad dinesig cyffrous newydd, sy'n cynnwys amwynderau lleol, ac o fewn pellter cerdded i Orsaf Caerdydd Ganolog a Chanol y Ddinas. Mae CLILC yn cynnwys trefniadau Gweithio'n Hyblyg o fis Medi 2021 hefyd, sy'n golygu y bydd staff yn gallu cydbwysu gweithio o gartref a chanolbwyntiau gwasanaethau cyhoeddus, yn ogystal â Swyddfa Caerdydd CLILC.

Ein nod yw cynnig amgylchedd gwaith cyfeillgar, cefnogol a hyblyg ac mae hawl gan staff i ystod o fuddion gan gynnwys:

- Codiadau cyflog cynyddrannol a chyfraniadau i'r cynllun pensiwn llywodraeth leol
- 26 diwrnod o wyliau, yn codi i 29 ar ôl 3 blynedd ac yna'n codi i 32 ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth, ac 8 diwrnod o wyliau'r banc
- Polisi gweithio ystwyth sydd yn cynnwys gweithio'n hyblyg a'r opsiynau i weithio gartref.
- Cynllun Beicio i'r Gwaith, cyfleusterau benthygiad teithio a maes parcio am ddim i staff
- Ystod o bolisiâu cefnogol, gan gynnwys egwylliau gyrfa, rhannu swydd, cynllun prynu gwyliau a threfniadau gwyliau eraill.
- Absenoldebau mamolaeth, mabwysiadu, tadolaeth ac absenoldeb rhiant a rennir hael
- Swyddfa wedi'i lleoli'n ganolog yng nghalon un o ddinasoedd mwyaf bywiog y DU

Telerau Cyflogaeth

Mae CLILC yn cyflogi ei gweithwyr yn ôl amodau'r Cydgyngor Gwladol dros Wasanaethau Llywodraeth Leol a'r amryw gytundebau lleol sydd wedi'u newid. Dyma'r prif ofynion:

Cyflog:

Byddwn ni'n talu'ch cyflog fesul mis calendr trwy gredyd banc ar y 15^{fed} diwrnod o bob mis neu oddeutu hynny.

Oriau gwaith:

36 o oriau yw'r wythnos safonol. Mae CLILC yn cyflwyno trefniadau Gweithio'n Hyblyg newydd a fydd yn rhoi hyblygrwydd sylweddol i staff o ran oriau gweithio, oriau nad ydynt yn gweithio a gwyliau blynyddol.

Treuliau teithio a chynnal:

Un o'r amodau penodi yw bod ein staff yn fodlon gweithio unrhyw le yng Nghymru, gweddill y Deyrnas Gyfunol neu Ewrop ar adegau. Byddwn ni'n talu treuliau teithio a chynnal yn ôl cynllun CLILC pan fo rhywun yn gweithio y tu allan i'w ganolfan.

Gwyliau:

Yr hawl gwyliau am flwyddyn lawn (mae'r flwyddyn wyliau yn weithredol o 1 Ebrill tan 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol) fydd 26 diwrnod i ddechrau, ynghyd â gwyliau statudol. Gallai gweithwyr llywodraeth leol presennol dderbyn gwyliau ychwanegol yn seiliedig ar wasanaeth parhaus i lywodraeth leol.

Pensiwn:

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei dderbyn yn awtomatig i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Cynllun cyfrannol yw hwn sydd wedi nodi buddion ar gyfer gweithwyr. <https://mpfmembers.org.uk/content/members-currently-contributing-lgps>

Rhybudd: Os ydych chi'n bwriadu gadael eich swydd, rhaid rhoi gwybod fis calendr ymlaen llaw. Caiff y cyfnod ddechrau unrhyw ddiwrnod o'r mis. Rhaid i staff uwch roi rhybudd o 3 mis. Yn yr un modd, rhaid i CLILC roi rhybudd i chi fis calendr ymlaen llaw neu roi rhybudd yn ôl y cyfnod statudol cyfredol, faint bynnag sy'n hiraf.

Telerau Secondiad (os yw'n berthnasol)

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn parhau'n un o weithwyr ei gyflogwr presennol a fydd yn talu ei gyflog o hyd gan adennill yr arian hwnnw o CLILC. Ni fydd amodau na thelerau'r gwaith yn newid. Bydd y Gymdeithas yn ad-dalu costau teithio ar gyfer busnes a threuliau a ysgwyddir ar secondiad. Dylai pob ymgeisydd ddarllen polisi secondiadau ei sefydliad, a chael caniatâd ei reolwr cyn cyflwyno cais.

Swyddi o dan gyfyngiadau gwleidyddol CLILC:

Ni fydd CLILC yn penodi staff neu weithwyr mewn unrhyw rinwedd, unrhyw Gynghorydd sy'n Aelod ar hyn o bryd (yn cynnwys aelod cyfetholedig) o awdurdod lleol, neu unrhyw gorff arall sy'n aelod o CLILC e.e. Awdurdod y Parc Cenedlaethol neu a oedd wedi bod yn Aelod yn y 12 mis blaenorol (a.116 Deddf Llywodraeth Leol (DLIL) 1972).

Ystyrir y swyddi canlynol yn rhai â chyfyngiadau gwleidyddol (yn unol â'r swyddi awdurdodau lleol hynny a nodwyd yn Adran 2(1) o Ddeddf 1989¹:

- Pob aelod o'r Uwch Dîm Rheoli
- Pob swyddog a delir yn uwch na Phwynt 30 ar y Golofn Gyflog
- Swyddogion eraill sy'n rhoi cyngor rheolaidd i awdurdodau lleol
- Unrhyw swyddog gyda rôl sy'n cynnwys siarad ar ran CLILC i'r cyfryngau.

Mae WLGA yn cyflogi ei staff yn ôl egwyddorion cyfleoedd cyfartal.

¹ Rhan I o Ddeddf Llywodraeth Lleol a Thai 1989 a Rheoliadau Llywodraeth Leol (Swyddi dan Gyfyngiadau Gwleidyddol) (Cymru) 2008

Gwnewch gais Rŵan!

I gael sgwrs gychwynol ynglŷn â'r swydd a'r sefydliad, cysylltwch â Naomi Alleyne, Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, 07770958639.

I wneud cais, anfonwch lythyr eglurhaol gyda ffurflen gais wedi'i chwblhau erbyn y dyddiad cau, Dydd Sul 26 Medi 2021 at:

Rheolwr Adnoddau Dynol
e-bost recruitment@wlga.gov.uk

Gwahoddir ymgeiswyr ar y rhestr fer i gyfweiliad drwy Microsoft Teams gyda'r dyddiad i'wgadarnhau.

Efallai y bydd gofyn i ymgeiswyr ar y rhestr fer gwblhau tasg cyn bod yn bresennol yn y cyfarfod, yn ogystal â thasgau cyn cyfweiliad ar y diwrnod, wedi'i ddilyn gan gyfweiliad gyda phanel dethol.